a7 Os dyfarnwyd '**caniatâd mynediad neu aros**' yn y DU i chi (neu'ch gŵr, eich gwraig, eich partner sifil, eich rhieni neu'ch llys-riant) o ganlyniad i gais aflwyddiannus am loches, bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr a dogfen statws mewnfudo atoch (neu ef neu hi) sy'n cadarnhau hyn. Pan fo hynny'n berthnasol, dylai'r llythyr hwn nodi pryd y bydd statws y caniatâd mynediad neu aros yn dod i ben hefyd. Dylech anfon y llythyr hwn, nid llun-gopi ohono, gyda'ch ffurflen gais. Yn ogystal, dylech ddarparu tystiolaeth i gadarnhau'ch perthynas gyda'r unigolyn y rhoddwyd caniatâd mynediad neu aros iddynt.

Os dyfarnwyd '**caniatâd i aros am amser amhenodol**' i chi (neu'ch gŵr, eich gwraig, eich partner sifil, eich rhieni neu'ch llys-riant), dylech nodi AMH (amherthnasol) yn y bocs dyddiad dod i ben.

 Os ydych yn hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn unigolyn y rhoddwyd caniatâd mynediad neu aros iddynt, ni fyddwch yn cael eich ystyried yn 'blentyn' oni bai eich bod dan 18 oed ar yr adeg pan wnaeth eich rhieni gyflwyno eu cais i'r Swyddfa Gartref.

Os ydych yn hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun y rhoddwyd caniatâd mynediad neu aros iddynt, rhaid eich bod yn ŵr, yn wraig neu'n bartner sifil iddynt ar yr adeg y cyflwynwyd eu cais am loches.

b2 Gweler tudalen 2 y nodiadau hyn am ddisgrifiad o flynyddoedd academiaidd.

Adran 4 am eich cwrs, a'ch coleg neu brifysgol

- a1** Dylech nodi manylion eich dewis cyntaf. Os byddwch yn derbyn lle ar gwrs gwahanol neu mewn prifysgol neu goleg gwahanol yn nes ymlaen, rhaid i chi ein hysbysu yn syth. Os na fyddwch yn gwneud hyn, bydd hyn yn oedi'ch cais.
- b** Dylech nodi'r swm llawn o ran ffioedd dysgu ar gyfer eich dewis cyntaf. Os byddwch yn derbyn lle ar wahanol gwrs neu mewn gwahanol brifysgol neu goleg yn nes ymlaen, rhaid i chi ein hysbysu o'r swm newydd a godir o ran ffioedd hyfforddi.
- e** **Cwrs israddedig amser llawn**
Am y cyrsiau hyn, byddwch yn mynychu prifysgol neu goleg am y rhan fwyaf o'r wythnos ac am y rhan fwyaf o wythnosau yn ystod y flwyddyn (ac eithrio penwythnosau a'r gwyliau arferol). Rhaid i chi fynychu'r cwrs am 24 wythnos o leiaf yn ystod y flwyddyn academaidd, oni bai eich bod ar flwyddyn academaidd olaf y cwrs, ac os felly, rhaid i chi fynychu am wyth wythnos o leiaf. Yn ogystal, rhaid i'r cwrs bara am un flwyddyn academaidd o leiaf. Hyd yn oed os bydd eich prifysgol neu goleg wedi gwneud trefniadau i chi ddilyn y cwrs heb i chi orfod mynychu, ystyrir eich bod yn mynychu'ch cwrs o hyd.

Graddau sylfaen amser llawn

Mae graddau sylfaen yn gymwysterau addysg uwch sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ac a gynlluniwyd i roi'r sgiliau angenrheidiol i chi ar y lefel technegydd uwch a phroffesiynol perthnasol. Fe'u cynlluniwyd i fod yn hyblyg er mwyn bod yn addas i wahanol sefyllfaoedd, ac mae modd i chi gwblhau graddau sylfaen mewn dwy flynedd os byddwch yn eu hastudio fel cwrs amser llawn.

Dysgu o bell amser llawn

Mae dysgu o bell yn rhaglen astudio sy'n cynnwys deunyddiau fideo, deunyddiau wedi'u hargraffu a deunyddiau ar-lein sy'n galluogi myfyrwyr i astudio o'u cartrefi ac i fanteisio ar gymorth tiwtor sy'n gweithio mewn man arall.

Cwrs amser llawn sy'n cynnwys lleoliad (cwrs "rhyngosod")

Mae'r math hwn o gwrs yn cynnwys addysg amser llawn yn y brifysgol neu'r coleg, a chyfnodau ar leoliad gwaith neu leoliad diwydiannol.

Cwrs Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (HCA) ôl-raddedig hyblyg

Bydd cyfanswm y cymorth ariannol y byddwch yn gallu ei gael ar gyfer y math hwn o gwrs yn dibynnu ar hyd y cwrs a nifer yr wythnosau y byddwch yn eu treulio yn ymgymryd ag ymarfer dysgu ac astudio amser llawn. Mae'r tablau isod yn dangos yr hyn y gallai fod gennych yr hawl iddo.

e Cwrs HCA rhan-amser

Bydd angen i chi ddarparu llythyr gan eich prifysgol neu goleg sy'n cadarnhau nifer yr wythnosau y byddwch yn eu treulio yn astudio ac yn ymgymryd ag ymarfer dysgu amser llawn.

Cwrs HCA ôl-raddedig amser llawn

Ar gyfer y cyrsiau hyn, rhaid i chi fynychu'r cwrs amser llawn, ar gyfer arfer gweithgarwch astudio neu ymarfer dysgu, am gyfanswm o chwe wythnos y flwyddyn o leiaf. Os bydd eich cyfnodau astudio amser llawn, gan gynnwys ymarfer dysgu, yn llai na chwe wythnos o hyd, ni fyddwch yn gymwys i gael grantiau cynhaliaeth, ond efallai y byddwch yn gallu cael Benthyciadau Ffioedd Dysgu a Chynhaliaeth na asesir yn ôl incwm, ar raddfa is. Hyd yn oed os bydd eich prifysgol neu goleg wedi gwneud trefniadau i chi ddilyn y cwrs heb i chi orfod mynychu, ystyrir eich bod yn mynychu'ch cwrs o hyd.

Adran 4 am eich cwrs, a'ch coleg neu brifysgol

Cyfnod astudio amser llawn yn ystod y flwyddyn academiaidd	Llai na 10 wythnos	Benthyciad Ffioedd Dysgu o hyd at £625 Grant Ffioedd Dysgu o hyd at £945
	10 wythnos neu fwy	Benthyciad Ffioedd Dysgu o hyd at £1,255 Grant Ffioedd Dysgu o hyd at £1,890

Cyfnod cyfunol o astudio amser llawn ac ymarfer dysgu amser llawn yn ystod y flwyddyn academiaidd	Hyd y cwrs	
		Llai na blwyddyn academiaidd
Llai na 6 wythnos	Dim cymorth cynhaliaeth	Benthyciad Cynhaliaeth cwtogedig
6 i lai na 10 wythnos	Dim cymorth cynhaliaeth	Benthyciad Cynhaliaeth llawn Grant Dysgu'r Cynulliad cwtogedig
10 wythnos neu fwy	Dim cymorth cynhaliaeth	Grant Dysgu'r Cynulliad llawn Benthyciad Cynhaliaeth llawn

Os yw'ch cwrs yn para o leiaf blwyddyn fel arfer, ond os na fyddwch yn mynychu am flwyddyn gyfan neu fwy oherwydd y dyfernir Statws Athro Cymwys (SAC) i chi cyn hynny, efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth ariannol a dylech llenwi'r ffurflen hon. Cysylltwch â'ch prifysgol neu goleg am ragor o wybodaeth.

- e** Bydd angen i chi ddarparu llythyr gan eich prifysgol neu goleg sy'n cadarnhau nifer yr wythnosau amser llawn y byddwch yn eu treulio yn astudio a nifer yr wythnosau amser llawn y byddwch yn eu treulio ar ymarfer dysgu. Hyd yn oed os bydd eich prifysgol neu goleg wedi gwneud trefniadau i chi ddilyn y cwrs heb i chi orfod mynychu, ystyrir eich bod yn mynychu'ch cwrs o hyd.
- f** Os ydych yn astudio eich cwrs trwy gyfrwng trefniant astudio o bell neu fel arall yn astudio cwrs ond heb fod yn mynychu yn bersonol am reswm sy'n ymwneud â'ch anabledd, gallwch wneud cais am bob math o gyllid i fyfyrwyr (ac eithrio Grant Teithio) yn yr un modd â phe byddech yn mynychu yn bersonol. Rhaid i'r dystiolaeth a gyflwynwch ddangos na allwch fynychu prifysgol neu goleg yn bersonol am reswm sy'n ymwneud â'ch anabledd.
- Os ydych yn astudio eich cwrs trwy gyfrwng trefniant astudio o bell neu fel arall yn astudio cwrs ond heb fod yn mynychu yn bersonol am reswm nad yw'n ymwneud â'ch anabledd, ni allwch gael ffioedd dysgu neu gymorth cynhaliaeth, ond mae modd i chi wneud cais am gyllid i fyfyrwyr rhan-amser o hyd trwy lenwi ffurflen PTG1. Os oes gennych anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol, gallwch wneud cais am Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSA) hefyd.
- Os ydych yn astudio gyda'r Brifysgol Agored, gallwch wneud cais am grantiau ffioedd dysgu a chwrs rhan-amser, ac am Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl, ond mae'n rhaid i chi wneud cais i'r Brifysgol Agored am y rhain. Cysylltwch â'r Brifysgol Agored ar 01908 653411.
- h** Os ydych yn mynychu lleoliad yn ystod unrhyw dymor, dylech anfon llythyr atom gan eich prifysgol neu goleg i gadarnhau hyn.
- i** Os yw'ch lleoliad yn lleoliad di-dâl nas rhestrwyd, dim ond Benthyciad Cynhaliaeth ar gyfradd gwtogedig y bydd modd i chi ei hawlio.
- j** A fydddech gystal ag anfon y llythyr swyddogol sy'n nodi y cynigir lle i chi, a ariannir gan y wladwriaeth, ar gwrs drama a dawns mewn sefydliad a ariannir yn breifat.

Adran 5 benthyciad neu gymorth ariannol blaenorol a gwybodaeth arall

- a** Fel arfer, ni fydd modd i chi gael unrhyw grantiau neu fenthyciad arall nes byddwch wedi gwneud yr ad-daliadau diweddaraf ar gyfer unrhyw fenthyciadau blaenorol a gawsoch gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr (SLC).

Os ydych wedi cael unrhyw fenthyciad(au) ar ffurf morgais (a ddyfarnir i fyfyrwyr a gyhwynnodd ar gyrsiau cyn blwyddyn academiaidd 1998-1999 yn gyffredinol) gan SLC, ac os ydych yn credu y gallech fod ar ei hôl hi gyda'r ad-daliadau, dylech ffonio 0870 241 4998 am gyngor.

Os ydych wedi cael unrhyw fenthyciad(au) Ad-dalu Amodol ar Incwm (ICR) blaenorol, a'ch bod wedi aros yn y DU ac mae'ch enillion wedi cyrraedd y trothwy ad-dalu, dylai'ch cyflogwr(cyflogwyr) fod wedi casglu ad-daliadau trwy gyfrwng y system Talu Wrth Ennill (PAYE) neu, os ydych yn hunangyflogedig, dylai Cyllid a Thollau EM fod wedi'u casglu. Os ydych wedi bod mewn gwlad dramor am gyfnod o 3 mis neu fwy ac os na wnaethoch drefniadau i barhau'r ad-daliadau, efallai y byddwch ar ei hôl hi gyda'r ad-daliadau. Os nad ydych yn siŵr a ydych wedi gwneud yr ad-daliadau diweddaraf, ffoniwch SLC ar 0870 240 6298 am gyngor ac eglurhad pellach.

- b** Fel arfer, ni fydd modd i chi gael unrhyw grantiau neu fenthyciad arall nes i chi lofnodi'r holl ddogfennau. Dylech ffonio SLC ar 0845 026 2019 i gael cyngor.

- c2** Os na wnaethoch orffen eich cwrs am resymau personol anorfod (nad ydynt yn cynnwys rhesymau sy'n ymwneud â pherfformiad academiaidd yn unig), rhaid i chi nodi'r manylion llawn yn yr adran hon, gan anfon y dystiolaeth ddogfennol angenrheidiol i gefnogi'r rhesymau a nodwyd gennych.

- e** Os ydych wedi gwneud cais, neu os byddwch yn gwneud cais, am fwrsariaeth gwaith cymdeithasol gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NHSBSA), dylech ateb "na" i'r cwestiwn hwn oherwydd bod hon yn fwrsariaeth ar wahân i'r rhai a gynigir gan GIG neu AI.

Os ydych yn cael neu os ydych yn debygol o gael bwrsariaeth neu ddyfarniad wedi'i seilio ar **asesiad incwm**, yr unig elfen o gyllid i fyfyrwyr y byddwch yn gymwys i wneud cais amdano fydd y rhan o'r Benthyciad Cynhaliath na asesir yn ôl incwm, a bydd hyn ar raddfa gwtogedig.

Os ydych yn cael neu os ydych yn debygol o gael bwrsariaeth **nad yw'n cael ei seilio ar asesiad incwm**, Ni fyddwch yn gymwys i gael unrhyw gyllid arall i fyfyrwyr oni bai eich bod yn fyfyrwr ar secondiad sy'n astudio cwrs sy'n gysylltiedig ag iechyd ac os ydych wedi cael gwybod na allwch wneud cais am unrhyw fwrsariaeth, ar sail asesiad incwm neu beidio.

- e** Rhaid i chi anfon cadarnhad o'r ffaith eich bod yn gymwys i gael bwrsariaeth GIG i'ch Awdurdod Lleol. Os nad oes gennych y dystiolaeth hon nawr, ni ddylech aros nes i chi ei chael cyn cyflwyno'ch cais am gyllid i fyfyrwyr. Dylech anfon y dystiolaeth hon i'ch ALI cyn gynted ag y byddwch yn ei chael.

Os nad ydych yn siŵr ynghylch a ydych yn gymwys i gael bwrsariaeth, dylech gysylltu ag Uned Grantiau Myfyrwyr Asiantaeth Bensiynau GIG ar 0845 358 6655.

Adran 6 manylion cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu myfyriwr

Telir y taliadau yn uniongyrchol i'r cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yr ydych wedi'i nodi. Os yw'r cyfrif yn gyfrif cymdeithas adeiladu, dylech holi a oes angen i chi nodi rhif rhôl hefyd. Rhaid i'r cyfrif fod yn y DU ac mae'n rhaid ei fod yn gallu derbyn taliadau credyd uniongyrchol (holwch eich banc neu gymdeithas adeiladu os nad ydych yn siŵr am hyn). Ni allwn dalu eich Benthyciad Cynhaliath, eich bwrsariaeth (pan fo hynny'n berthnasol) neu unrhyw grantiau i rywun arall ar eich rhan, ac eithrio yn achos Lwfansau i Fyfywyr Anabl pan fo modd talu eich cyflenwyr yn uniongyrchol.

Hyd yn oes os ydych yn gwneud cais am Lwfansau i Fyfywyr Anabl yn unig, dylech nodi manylion eich cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu o hyd. Efallai y bydd angen i ni dalu'r lwfansau i chi os na allwn dalu eich cyflenwyr yn uniongyrchol. Ni fydd angen i chi ddarparu manylion eich cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu os ydych yn gwneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu yn unig oherwydd bydd hwn yn cael ei dalu i'ch prifysgol neu goleg yn uniongyrchol, ac nid i chi.

Ffurflen cais am fenthyciad

Bydd eich Rhif Yswiriant Gwladol yn ein helpu i'ch cyfateb gyda'ch cofnodion treth pan fyddwch yn ad-dalu eich benthyciad ar ôl i chi orffen astudio. Nodir eich Rhif Yswiriant Gwladol:

- ar gerdyn Rhif Yswiriant Gwladol;
- ar slip cyflog;
- ar ddogfen treth incwm megis P45 neu P60; neu
- ar ffurflen gan eich Canolfan Byd Gwaith, eich Canolfan Waith neu'ch Swyddfa Nawdd Cymdeithasol lleol.

Os nad ydych erioed wedi cael Rhif Yswiriant Gwladol, dylech adael y bocs Rhif Yswiriant Gwladol yn wag. Byddwn yn cysylltu â chi pan fyddwn yn cael manylion eich cais a byddwn yn eich hysbysu o'r hyn y bydd angen i chi ei wneud i gael Rhif Yswiriant Gwladol.

Os ydych wedi colli neu anghofio eich Rhif Yswiriant Gwladol, dylech gysylltu â llinell gymorth Cofrestriadau Yswiriant Gwladol Cyllid a Thollau EM (HMRC) ar 0845 915 7006.

Os na fyddwch yn nodi eich Rhif Yswiriant Gwladol, ni fyddwch yn cael eich benthyciad a bydd yn rhaid i chi dalu'ch ffioedd dysgu a'ch costau byw eich hun nes bydd y mater hwn yn cael ei ddatrys.

Benthyciad Cynhaliaeth

Telir y benthyciad hwn mewn rhandaliadau yn uniongyrchol i chi, a'i ddiben yw helpu i dalu costau byw personol trwy gydol y flwyddyn academiaidd.

Benthyciad Ffioedd Dysgu

Mae'r benthyciad hwn ar gyfer ffioedd dysgu eich cwrs YN UNIG ac fe'i telir yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu goleg ar ôl iddynt gadarnhau eich bod yn mynychu'r cwrs.

Seiliwyd y swm y gallwch ei fenthycia ar y ffioedd dysgu y mae'ch prifysgol neu goleg yn gofyn i chi eu talu, hyd at uchafswm o £3,145.

Os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg preifat, gallwch wneud cais am fenthyciad i dalu ffi ddysgu y cwrs a godir ganddynt. Os bydd hyn dros £3,145, dim ond am yr uchafswm o ran Benthyciad Ffioedd Dysgu, sef £3,145, y bydd modd i chi wneud cais amdano o hyd.

Gwybodaeth ychwanegol

Os byddwch yn penderfynu gwneud cais am un math o fenthyciad yn unig nawr, gallwch wneud cais am y math arall o fenthyciad o hyd yn nes ymlaen. I wneud cais am fenthyciad arall neu i newid y swm y gwnaethoch gais amdano yn wreiddiol, dylech droi at ein gwefan sef www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk er mwyn lawrlwytho Ffurflen Cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu neu Fenthyciad Cynhaliaeth ar wahân. Neu, cysylltwch â Chanolfan Gyswilt Cyllid Myfyrwyr Cymru ar 0845 602 8845 a byddant yn trefnu bod Ffurflen Cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu neu Fenthyciad Cynhaliaeth ar wahân yn cael ei hanfon atoch.

Gallwch wneud cais am Fenthyciad Cynhaliaeth neu Fenthyciad Ffioedd Dysgu ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academiaidd ar yr amod eich bod o fewn y cyfyngiad amser. Fel arfer, y cyfyngiad amser er mwyn gwneud cais yw naw mis o ddechrau'r flwyddyn academiaidd.

Datganiadau

Os byddwch yn cael benthyciad, bydd cytundeb cyfreithiol-rwym rhyngoch chi a Gweinidogion Cymru.

Mae'r Ffurflen Cais am Fenthyciad gan gynnwys y datganiadau, yn rhan annatod o'ch cytundeb gyda Gweinidogion Cymru.

Gellir gweld amodau ychwanegol y cytundeb mewn rheoliadau a wnaethpwyd dan adran 22 Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd, neu ddeddfwriaeth olynol.

Adran 7 myfyriwr dibynnol ac annibynnol

Mae **myfyriwr dibynnol** yn fyfyriwr y bydd disgwyl i'w rhieni neu riant a phartner eu riant gyfrannu at eu cymorth ariannol efallai. Os ydych yn fyfyriwr dibynnol, asesir eich rhieni am gyfraniad i unrhyw gyllid i fyfyriwr wedi'i seilio ar incwm y byddwch yn gwneud cais amdano. Os ydych dan 25 oed ac os nad ydych wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil ar unrhyw adeg cyn dechrau'r flwyddyn academaidd, byddwch yn fyfyriwr dibynnol, oni bai bod un o'r meini prawf eraill yn yr adran hon yn berthnasol i chi.

Mae **myfyriwr annibynnol** yn fyfyriwr na ddisgwylir iddynt ddibynnu ar gymorth rhieni mwyach. Rydych yn fyfyriwr annibynnol os ydych yn 25 oed neu'n hŷn ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yr ydych yn gwneud cais yn ei chylch, neu os ydych ar unrhyw adeg cyn y cyfnod hwn wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil (hyd yn oed os yw'r briodas neu'r bartneriaeth sifil bellach wedi dod i ben). Os byddwch yn bodloni un o'r meini prawf hyn, ystyrir incwm unrhyw ŵr, gwraig neu bartner.

b Fel arfer, dim ond os nad ydych wedi cael cyswllt gyda'ch rhieni am o leiaf flwyddyn cyn dechrau'ch blwyddyn academaidd yr ystyrir eich bod wedi ymbellhau yn anghymodlon oddi wrthynt.

Ni fydd modd i chi honni eich bod wedi ymbellhau yn anghymodlon oddi wrthynt oherwydd nad ydych ar delerau da gyda'ch rhieni neu oherwydd nad ydych yn byw gyda nhw. Yn ogystal, ni fydd modd i chi honni eich bod wedi ymbellhau yn anghymodlon oddi wrthynt oherwydd nad yw'ch rhieni yn dymuno rhoi manylion am eu hincwm neu oherwydd eu bod yn gwrthod rhoi cymorth ariannol i chi.

Os ydych wedi bod yn cael eich gwarchod gan awdurdod lleol neu yn eu gofal ar unrhyw adeg, ond rydych wedi bod yn ôl yng ngofal cyfreithiol eich rhieni ar unrhyw adeg ers hynny, ni ystyrir eich bod yn annibynnol.

c Er mwyn cael eich hystyried fel unigolyn hunangynhaliol, rhaid eich bod wedi bod yn cynnal eich hun yn ariannol am 3 blynedd neu fwy cyn dechrau blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs (nid oes yn rhaid i hyn fod yn 3 blwyddyn yn olynol) a'ch bod wedi bod yn talu eich costau byw eich hun trwy gyfrwng y canlynol:

- cyflogaeth
- budd-daliadau
- efrydiaethau ymchwil y wladwriaeth
- ysgoloriaethau, arddangosfeydd a bwrsariaethau

e Bydd yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o'r cymorth uchod megis ffurflenni P60 neu wybodaeth am fudd-daliadau, cyn yr ystyrir eich bod yn annibynnol.

Ni ystyrir eich bod yn hunangynhaliol os ydych yn talu eich costau byw gan ddefnyddio arian yr ydych yn ei gael gan riant.

d Ystyrir eich bod yn fyfyriwr annibynnol os ydych yn gofalu am unigolyn dan 18 oed ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd. Mae gofalu am rywun dan 18 oed yn golygu eich bod yn gofalu am blentyn ac mae'r plentyn yn byw gyda chi, beth bynnag fo'ch perthynas gyda'r plentyn.

e Os ydych yn gofalu am unigolyn dan 18 oed, rhaid i chi anfon tystysgrifau geni gwreiddiol y plentyn/plant i gadarnhau eu dyddiadau geni. Yn ogystal, dylech ddarparu tystiolaeth eich bod yn gofalu am y plentyn, er enghraifft, tystiolaeth eich bod yn cael Budd-dal Plant neu Gredyd Treth Plant.

Adran 8 cwestiynau ariannol i fyfyrwyr

a Dylech roi amcangyfrif realistig o'ch incwm, y bydd angen i chi ei gadarnhau yn nes ymlaen efallai. Os yw'ch incwm go iawn yn wahanol i'ch incwm amcangyfrifedig, byddwn yn ailasesu'ch hawl. Gallai hyn newid lefel y cymorth ariannol y byddwch yn ei gael.

Wrth gyfrifo'ch incwm trethadwy nas enillwyd, NI DDYLECH gynnwys:

- **enillion o waith amser llawn neu waith rhan-amser** megis gwaith yn ystod gwyliau neu waith yr ydych yn ei wneud yn ystod y tymor;
- unrhyw Fenthyciad Cynhaliaeth neu daliadau grant yr ydych yn eu cael efallai;
- taliadau yr ydych yn eu cael gan eich rhieni dan gyfamod;
- taliadau cynhaliaeth yr ydych yn disgwyl eu cael am eich plant. Dylid cynnwys y taliadau cynhaliaeth hyn fel rhan o incwm eich plant yng nghwestiwn 8d.
- Bwrsariaethau Hyfforddiant Athrawon;
- cymorthdaliadau a delir gan y lluoedd arfog i filwyr wrth gefn neu bensïynau anabledd neu i'r methodig; neu
- ISAs.

b DIM OND os ydych yn fyfyrwr sy'n cael eich rhyddhau o'ch cyflogaeth gan eich cyflogwr i fynychu'ch cwrs y dylech nodi swm yma. Os ydych yn un o'r myfyrwyr hyn, dim ond cyflog y byddwch yn ei gael gan y cyflogwr hwnnw am ddiwrnodau pan fyddwch yn mynychu'ch cwrs ac wedi cael eich rhyddhau o'ch cyflogaeth i wneud hynny, y dylech ei nodi. Gallai unrhyw enillion o gyflog a nodir yma effeithio ar eich hawl i gael cyllid i fyfyrwyr.

Ni ddylech nodi unrhyw swm yma os ydych yn fyfyrwr sy'n gweithio tra'r ydych yn astudio ond nad ydych wedi cael eich rhyddhau yn benodol gan eich cyflogwr i fynychu'ch cwrs.

d Rhaid i chi gynnwys unrhyw incwm y mae'r plentyn yn ei gael o weithio, o log ar gynilion, o fuddsoddiadau a thaliadau cynhaliaeth yr ydych yn disgwyl eu cael ar gyfer eich plant fel rhan o'u hincwm **nhw** yn y cwestiwn hwn.

e Rhaid i chi anfon tystysgrif(au) geni wreiddiol eich plentyn/plant er mwyn cadarnhau eu dyddiad(au) geni cyn bydd modd eu hystyried wrth asesu'ch hawl.

Adran 9 Lwfans Dysgu i Rien, Grant Oedolion Dibynnol a Grant Gofal Plant

d Mae lwfansau maethu neu letya yn daliadau rheolaidd y bydd gofalwyr maeth yn eu cael i dalu'r costau o gadw plentyn.

e Yr ymrwymïadau ariannol i'w cynnwys fyddai polisiau yswiriant megis yswiriant meddygol neu yswiriant y cartref, premiymau yswiriant bywyd, ad-daliadau morgais neu daliadau cynhaliaeth ar gyfer dibynnydd. Bydd yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth ddogfennol o unrhyw ymrwymïadau y byddwch yn eu datgan.

f Os byddwch yn gwneud cais am Grant Gofal Plant neu os byddwch yn dewis cael Grant Gofal Plant yn hytrach nag elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith, anfonir ffurflen bellach atoch i'w llenwi, ynghyd â llyfryn gwybodaeth sy'n amlinellu swm y Grant Gofal Plant sydd ar gael. Gallwch gael gwybodaeth ynghylch pob agwedd ar Gredyd Treth Gwaith gan linell gymorth Cyllid a Thollau EM (HMRC) ar 0845 300 3900.

Adran 10 am eich teulu

Os nad ydych yn siŵr a ydych yn ddibynnol neu'n annibynnol, trowch at y nodiadau ar gyfer Adran 7. 

Pa aelodau o'r teulu sy'n cyfri?

Myfyrwyr dibynnol

Os ydych yn byw gydag un rhiant yn unig, ac os nad yw ef neu hi yn byw gyda phartner, dim ond y rhiant yr ydych yn byw gyda nhw sy'n cyfrif. Ni fydd eich rhiant naturiol arall yn cyfrif oni bai eu bod yn byw gyda chi hefyd.

Os ydych yn byw gyda gwarcheidwad megis taid/tad-cu neu nain/mam-gu, NI DDYLENT lenwi'r adran hon gan mai incwm eich rhieni a fydd yn cael ei ystyried at ddibenion asesu cyllid i fyfyrwyr.

Os ydych yn fyfyrwr dibynnol, bydd aelodau'r teulu sy'n cyfrif at ddibenion asesu incwm yn dibynnu ar yr adeg pan wnaethoch gychwyn ar eich cyfnod addysg uwch.

I fyfyrwyr a gychwynnodd mewn addysg uwch **ar neu ar ôl 1 Medi 2005**, bydd y bobl ganlynol yn cyfrif:

- eich rhieni naturiol neu fabwysiadol, os yw'r ddau ohonynt yn byw gyda chi; neu
- os ydych yn byw gydag un rhiant, y rhiant hwnnw a'u partner os oes un ganddynt.

Mae partner eich rhiant yn golygu:

- eich llysfam neu'ch llystad, os yw'r rhiant yr ydych yn byw gyda nhw yn briod neu mewn partneriaeth sifil;
- partner eich mam neu'ch tad o'r rhyw arall os ydynt yn cyd-fyw fel pe baent yn briod; neu
- partner eich mam neu'ch tad o'r un rhyw os ydynt yn cyd-fyw fel pe baent mewn partneriaeth sifil.

I fyfyrwyr a gychwynnodd mewn addysg uwch **ar neu ar ôl 1 Medi 2004 ond cyn 1 Medi 2005**, bydd y bobl ganlynol yn cyfrif:

- eich rhieni naturiol neu fabwysiadol, os yw'r ddau ohonynt yn byw gyda chi; neu
- os ydych yn byw gydag un rhiant, y rhiant hwnnw a'u partner os oes un ganddynt.

Mae partner eich rhiant yn golygu:

- eich llysfam neu'ch llystad, os yw'r rhiant yr ydych yn byw gyda nhw yn briod neu mewn partneriaeth sifil; neu
- partner eich mam neu'ch tad o'r rhyw arall os ydynt yn cyd-fyw fel pe baent yn briod.

I fyfyrwyr a gychwynnodd mewn addysg uwch **ar neu cyn 1 Medi 2004**, bydd y bobl ganlynol yn cyfrif:

- eich rhiant(rhieni) naturiol neu fabwysiadol.

Adran 10 am eich teulu

Myfyrwyr annibynnol

Os ydych yn fyfyrwr annibynnol, dim ond eich partner, os oes un gennych, fydd yn cyfrif. Bydd y diffiniad o'ch partner, ac felly, a fydd angen asesu eu hincwm at ddibenion asesu incwm, yn dibynnu ar yr adeg pan wnaethoch gychwyn mewn addysg uwch.

I fyfyrwyr a gychwynnodd mewn addysg uwch **ar neu ar ôl 1 Medi 2005**, eich partner yw:

- eich gŵr neu'ch gwraig;
- eich partner sifil;
- eich partner o'r rhyw arall os ydych dros 25 oed ac os ydych yn byw gyda'ch partner fel pe baech yn briod; neu'ch
- partner o'r un rhyw os ydych yn 25 oed neu'n hŷn ac os ydych yn byw gyda'ch partner fel pe baech mewn partneriaeth sifil.

I fyfyrwyr a gychwynnodd mewn addysg uwch **ar neu ar ôl 1 Medi 2000 ond cyn 1 Medi 2005**, eich partner yw:

- eich gŵr neu'ch gwraig;
- eich partner sifil; neu'ch
- partner o'r rhyw arall os ydych yn byw gyda'ch gilydd fel pe baech yn briod.

Os nad oes gennych bartner yn unol â'r diffiniad uchod, ni fydd unrhyw aelodau o'r teulu yn cyfrif. Dim ond eich incwm chi y byddwn yn ei asesu.

- b** Os yw'ch rhieni wedi ysgaru neu wahanu, neu os ydych wedi bod mewn partneriaeth sifil a ddiddymwyd, dylech anfon copi o'r archddyfarniad absoliwt, y gorchymyn diddymu neu lythyr gan eu cyfreithiwr sy'n cadarnhau eu statws.

Adran 10 am eich teulu

Datganiad myfyriwr

Os na all y myfyriwr lofnodi'r ffurflen, am ba reswm bynnag, gall rhywun sy'n meddu ar Bŵer Atwrnai dilys ar gyfer yr unigolyn hwnnw lofnodi ar eu rhan. Rhaid anfon y llythyr Pŵer Atwrnai gyda'r cais hwn cyn y bydd llofnod gan y Pŵer Atwrnai hwnnw yn cael ei dderbyn.

Amgylchiadau yn newid

Rhaid i chi hysbysu'ch ALL o unrhyw newid i'ch amgylchiadau a allai effeithio ar eich hawl i gael cymorth ariannol.

Y newidiadau mwyaf cyffredin i amgylchiadau myfyrwyr fyddai:

- os ydych yn absennol o'r cwrs am dros 60 diwrnod oherwydd salwch;
- os ydych yn absennol am unrhyw reswm arall;
- os byddwch yn gadael eich cwrs, yn rhoi'r gorau i'ch cwrs neu'n cael eich gwahardd o'ch cwrs;
- os byddwch yn stopio mynychu'r cwrs ac os nad ydych yn bwriadu, neu os na chaniateir i chi ddychwelyd am weddill y flwyddyn academaidd;
- os byddwch yn trosglwyddo i gwrs gwahanol yn yr un brifysgol neu goleg neu mewn prifysgol neu goleg gwahanol;
- os byddwch yn trosglwyddo o gwrs amser llawn i gwrs rhan-amser;
- os byddwch yn ailadrodd rhan o flwyddyn eich cwrs, neu flwyddyn gyfan o'ch cwrs; neu
- os bydd dyddiad dechrau neu orffen eich cwrs yn newid.

Gwybodaeth ynghylch rhannu data at ddibenion bwrsariaethau ac ysgoloriaethau

Bydd prifysgolion a cholegau yn cynnig gwobrau ariannol megis bwrsariaethau ac ysgoloriaethau i'w myfyrwyr. Er mwyn eu helpu i weinyddu'r gwobrau hyn (h.y. er mwyn pennu cymhwysra a'r hawl i'w cael, a phan fo hynny'n berthnasol, er mwyn talu bwrsariaeth neu ysgoloriaeth - "dibenion gweinyddu bwrsariaethau"), byddant yn gofyn i Weinidogion Cymru, eich awdurdod lleol neu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr am yr hawl i droi at wybodaeth y byddwch yn ei darparu sy'n ymwneud â'r cais hwn am gyllid i fyfyrwyr (yn y ffurflen hon neu yn y dyfodol).

Byddwn yn rhannu'r wybodaeth berthnasol gyda nhw, oni bai eich bod yn nodi nad ydych yn dymuno i ni wneud hynny trwy dicio'r bocs ar y datganiad. Os **na** fyddwch yn rhoi eich caniatâd i ni rannu'r wybodaeth hon, efallai y bydd oedi cyn y telir unrhyw fwsariaeth neu ysgoloriaeth i chi y bydd gennych yr hawl i'w chael.

A fydech gystal â chysylltu â'r brifysgol neu'r coleg os bydd angen gwybodaeth bellach arnoch ynghylch eu bwrsariaethau a'u hysgoloriaethau.

Adran 11 manylion ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2007-08 i unigolyn(unigolion) a enwir yn Adran 10

Gwybodaeth gyffredinol

Os ydych yn credu y bydd eich incwm (cyn treth) ar gyfer blwyddyn ariannol 2008-09 o leiaf 15% yn llai na'ch incwm ar gyfer 2007-08, rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon o hyd, ond dylech nodi manylion byr am y gostyngiad disgwylidig hwn o ran incwm ar ddarn o bapur ar wahân a'i gynnwys gyda ffurflen PN1. Yna, efallai yr anfonir ffurflen arall atoch i'w llenwi oherwydd efallai y bydd modd cyfrifo'r cyfraniad ariannol gan ddefnyddio'r manylion incwm ar gyfer 2008-09. Fodd bynnag, os ystyrir incwm dau riant (neu un riant a llys-riant neu bartner riant) yn y cartref, byddwn yn ystyried cyfanswm y ddau incwm. Dim ond os bydd eu hincwm ar y cyd wedi gostwng 15% neu fwy y bydd modd i ni addasu'r cyfraniad ariannol. Felly, dim ond os bydd incwm cyfunol dau riant (neu un riant a llys-riant neu bartner riant) yn debygol o ostwng 15% neu fwy, y dylid darparu manylion ynghylch y gostyngiad disgwylidig.

a2 Incwm trethadwy gros

Mae'ch incwm trethadwy gros yn golygu'ch incwm o gyflog gan gynnwys goramser, taliadau bonws a chomisiwn cyn didyniadau yn ystod blwyddyn ariannol 2007-08. Fel arfer, hon fydd y flwyddyn sy'n dod i ben ar 5 Ebrill 2008, ond gallai fod yn wahanol os oes gan eich cyflogwr neu'ch busnes flwyddyn dreth nad yw'n gorffen ym mis Ebrill.

Yn ogystal, dylech gynnwys unrhyw incwm a gawsoch gan wlad dramor yn ystod blwyddyn ariannol 2007-08 megis cyflogaeth mewn gwlad dramor, ac unrhyw incwm arall yr ydych yn ei gael gan wlad dramor na chaiff ei gynnwys yn nhrefniadau treth y DU yn ogystal ag unrhyw rai o'r budd-daliadau y gofynnwyd amdanynt.

Ni ddylech gynnwys unrhyw rai o'r canlynol fel rhan o'ch incwm trethadwy gros:

- Unrhyw ostyngiad personol;
- Taliadau dan gyfamod; neu
- Incwm di-dreth.

Dylech anfon tystiolaeth o'ch enillion, megis:

- eich P60;
- eich slip cyflog ar gyfer mis 12 neu wythnos 53 sy'n dangos "Y cyfanswm a dalwyd hyd yn hyn" am enillion yn ystod y cyfnod rhwng 6 Ebrill 2007 a 5 Ebrill 2008;
- ffurflen "Cadarnhad Incwm" (C12) wedi'i llenwi; neu
- lythyr gan eich cyflogwr sy'n cadarnhau'ch enillion.

Gallwch lawrlwytho copi o ffurflen C12 trwy droi at www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk neu gysylltu â Chanolfan Gyswilt Cyllid Myfyrwyr Cymru a byddwn yn anfon un atoch

b1 Mae buddion ar ffurf rhoddion yn golygu buddion ac eithrio arian y byddwch yn ei gael trwy'ch cyflogaeth, ac fe allent gynnwys car cwmni, prydau, llety neu yswiriant iechyd preifat. Dylid cynnwys buddion y bydd angen i chi dalu treth ar eu cyfer yn unig. Dylech anfon eich P11D ar gyfer 2007-08 neu'ch P2 "Notice of coding" ar gyfer 2008-09.

b2 Dylech nodi'r manylion a ddangosir ar eich ffurflen hunanasesu ar gyfer eich blwyddyn fasnachu sy'n dod i ben yn ystod y cyfnod rhwng 6 Ebrill 2007 a 5 Ebrill 2008.

Fel cadarnhad o'ch incwm hunangyflogaeth, gallwch anfon y dystiolaeth ganlynol:

- ffurflen "Confirmation of earnings from self-assessment (GSA1)" wedi'i llenwi; neu
- lythyr gan eich cyfrifydd.

Os na allwch nodi'r union swm, dylech roi amcangyfrif gan ysgrifennu "(A)" wrth ymyl y swm ar y ffurflen.

b3 Os ydych yn gyfarwyddwr cwmni, dylech anfon eich P60, P11D neu gadarnhad annibynnol o'ch enillion a'ch ffoedd cyfarwyddwr gan gyfrifydd siartredig neu ardystiedig neu Gyllid a Thollau EM (HMRC). Gallwch ddefnyddio ffurflen GSA1 hefyd. Os ydych eisoes wedi cynnwys eich incwm fel cyfarwyddwr cwmni fel rhan o'ch cyflog yng nghwestiwn a2 neu b2, ni ddylech ei nodi eto fan hyn.

Gallwch lawrlwytho copi o ffurflen GSA1 trwy droi at www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk neu gysylltu â Chanolfan Gyswilt Cyllid Myfyrwyr Cymru gan ofyn iddynt anfon un atoch.

Adran 11 manylion ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2007-08 i unigolyn(unigolion) a enwir yn Adran 10

- b5** A fydddech gystal ag anfon P60 neu lythyr gan eich darparwr pensiwn sy'n dangos eich taliadau pensiwn yn ystod y cyfnod rhwng 6 Ebrill 2007 a 5 Ebrill 2008.
- b8** Dylech nodi'r llog y byddwch yn ei gael cyn treth. Ni ddylech gynnwys llog yr ydych yn ei gael gan ISAs.
- b10** Dylech anfon P60U neu lythyr a lofnodwyd gan eich Canolfan Byd Gwaith i gadarnhau swm unrhyw fudd-daliadau yr ydych yn eu cael. Yn ogystal, gallwch anfon ffurflen "Cadarnhad o Fudd-daliadau" (CB2) wedi'i llofnodi gan eich Canolfan Byd Gwaith.
- Gallwch lawrlwytho copi o ffurflen CB2 trwy droi at www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk neu gysylltu â Chanolfan Gyswilt Cyllid Myfyrwyr Cymru gan ofyn iddynt anfon un atoch.
- c1** Ni ddylech gynnwys unrhyw daliadau rheolaidd yr ydych yn eu gwneud tuag at bensiwn ymddeol a ddarparir gan eich cyflogwr.
- c3** Mae hyn yn cynnwys unrhyw beth y gallwch hawlio gostyngiad yn y dreth arno oherwydd ei fod yn gost angenrheidiol sy'n gysylltiedig â'ch cyflogaeth, er enghraifft tanysgrifiadau i sefydliadau proffesiynol, cost gwisgoedd a chostau teithio. Dylech anfon yr un dystiolaeth ag yr ydych wedi ei hanfon at Gyllid a Thollau EM (HMRC). Os ydych yn weinidog yr efengyl, dylech gynnwys didyniadau a wnaethpwyd o'ch incwm at ddibenion treth yma. Rhaid i unrhyw dystiolaeth y byddwch yn ei darparu ddangos tystiolaeth o ostyngiad yn y dreth.

Adran 12 dibynyddion unigolyn(unigolion) a enwyd yn Adran 10

Dyddiadau cychwyn a gorffen blynyddoedd academiaidd

Pennir y cyfnod y bydd angen i ni gael gwybodaeth ariannol ar ei gyfer yn yr adran hon, gan ddyddiadau cychwyn a gorffen blwyddyn academiaidd y myfyriwr.

Nid yw diwrnod cyntaf y flwyddyn academiaidd yr un diwrnod ag y bydd y myfyriwr yn cychwyn ar y flwyddyn honno o'u cwrs o anghenraid. Caiff ei benderfynu gan y cyfnod pan fydd eu blwyddyn yn cychwyn.

Mae'r flwyddyn academiaidd yn cychwyn ar:

- 1 Medi, os byddant yn dechrau astudio rhwng 1 Awst a 31 Rhagfyr, ac yn dod i ben ar 31 Awst 2009;
- 1 Ionawr, os byddant yn dechrau astudio rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth, ac yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2009;
- 1 Ebrill, os byddant yn dechrau astudio rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin, ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2010; neu
- 1 Gorffennaf, fel arall, ac yn dod i ben ar 30 Mehefin 2010.

Er enghraifft, os bydd y myfyriwr yn cychwyn ar eu blwyddyn astudio ar 4 Hydref 2008, bydd y flwyddyn academiaidd yn cychwyn ar 1 Medi 2008 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2009, a dyma'r cyfnod y bydd yn rhaid i chi ddarparu manylion ariannol ar gyfer unrhyw ddibynyddion.

Datganiad i unrhyw unigolyn(unigolion) a enwir yn Adran 10

Os na fydd unrhyw unigolyn a enwir yn Adran 10 yn gallu llofnodi'r ffurflen, am ba reswm bynnag, gall rhywun sy'n meddu ar Pŵer Atwrnai dilys ar gyfer yr unigolyn hwnnw lofnodi ar eu rhan. Rhaid anfon y llythyr Pŵer Atwrnai gyda'r cais hwn cyn y bydd llofnod gan y Pŵer Atwrnai hwnnw yn cael ei dderbyn.

Amgylchiadau yn newid

Rhaid i chi hysbysu'r ALI o unrhyw newid i'ch amgylchiadau, a allai effeithio ar hawl y myfyriwr i gael cymorth ariannol.

Y newid mwyaf cyffredin mewn amgylchiadau fyddai:

- os byddai incwm eich cartref yn newid; neu
- os byddai'ch statws priodasol yn newid.

Gwybodaeth ynghylch rhannu data at ddibenion bwrsariaethau ac ysgoloriaethau

Bydd prifysgolion a cholegau yn cynnig gwobrau ariannol megis bwrsariaethau ac ysgoloriaethau i'w myfyrrwyr. Er mwyn eu helpu i weinyddu'r gwobrau hyn (h.y. er mwyn pennu cymhwysra a'r hawl i'w cael, a phan fo hynny'n berthnasol, er mwyn talu bwrsariaeth neu ysgoloriaeth - "dibenion gweinyddu bwrsariaethau"), byddant yn gofyn i Weinidogion Cymru, yr awdurdod lleol neu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr am yr hawl i droi at wybodaeth y byddwch yn ei darparu sy'n ymwneud â'r cais hwn am gyllid i fyfrwyr (yn y ffurflen hon neu yn y dyfodol).

Byddwn yn rhannu'r wybodaeth berthnasol gyda nhw, oni bai eich bod yn nodi nad ydych yn dymuno i ni wneud hynny trwy dicio'r bocs ar y datganiad. Os **na fyddwch** yn rhoi eich caniatâd i ni rannu'r wybodaeth hon, efallai y bydd oedi cyn y telir unrhyw fwsariaeth neu ysgoloriaeth i'r myfyriwr y bydd ganddo yr hawl i'w cael.

Deddf Diogelu Data 1998

Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr (SLC) yn Rheolydd Data dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth gan gynnwys pennu cymhwysra i gael cyllid i fyfrwyr, asesu uchafswm y cymorth ariannol sydd ar gael, talu taliadau cyllid i fyfrwyr a darganfod ac atal twyll, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw rai o'r dibenion hyn. Mae Gweinidogion Cymru yn Rheolydd Data ar y cyd ar gyfer eich gwybodaeth.

Efallai y byddwn yn rhoi eich gwybodaeth i sefydliadau eraill gan gynnwys yr Awdurdod Lleol (ALI), Gweinidogion Cymru, a'r brifysgol neu goleg at y dibenion hyn. Yn ogystal, efallai y byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch chi gan sefydliadau eraill. Os felly, bydd hyn at y dibenion a ddisgrifiwyd yn unig ac yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn caniatáu i ni ei wneud.

Am wybodaeth fanylach ynghylch y rhai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda nhw ac i ba ddiben, trowch at www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk/diogeludata.